



**PWYLLGOR CYDWEITHREDOL RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO
MORGANNWG
6^{ed} Mawrth 2013**

Yn bresennol:

Y Cynghorydd Bronwen Brooks -
CBM
Pam Toms – CBM
Mike Ingram – CBM
Francis Beecher – Cymorth
Mike Friel – CSC
Helen Jones - CIC
Michelle Brewer – CSC

Mark Sheridan – CIC
Peter Greenhill - Gwasanaeth Prawf
Simon Protheroe - LIC
Ceri Meloy - CIC
Kevin Parsons - CBM

Ymddiheuriadau:

Y Cynghorydd Thorne - CSC

	Cam Gweithredu
Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau Croesawodd y Cynghorydd Bronwen Brooks (Cadeirydd) bawb i'r cyfarfod. Nodwyd yr ymddiheuriadau a gafwyd.	
Cofnodion y cyfarfod diwethaf Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gwnaed diwygiadau.	
Materion yn Codi Cyddylydd Datblygu Rhanbarthol - dywedodd PT wrth y grŵp fod y swydd am gael ei hysbysebu yn y Western Mail a'r Echo. Y dyddiad cau yw 21 Mawrth 2013. Disgwylir i rywun fod yn y swydd erbyn mis Mai 2013.	

<p>Ffurflenni Gwrthdaro Buddiannau Trafodwyd hyn yn y cyfarfod diwethaf</p>	Pawb
<p>Achredu. Dim, yn aros am ganllawiau terfynol.</p> <p>Sefyllfa Ariannol yn erbyn y Gyllideb. Dim newid.</p> <p>Nodi Anghenion Rhanbarthol. Disgwyl penodi Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol.</p> <p>C. Beth yw sefyllfa Caerdydd o ran nodi anghenion? Dywedodd MF fod Caerdydd wedi casglu rhywfaint o wybodaeth ond ei bod yn cymryd y wybodaeth a gasglwyd ar gyfer 2013/14 i nodi anghenion ar gyfer y dyfodol. Gofynnodd FB p'un a ellid cwblhau'r amserlenni o ran yr ymarfer Nodi Anghenion, gan fod gwaith y PCRh yn ymddangos y tu ôl i PCRhau eraill. Dywedodd MF y byddai Caerdydd yn llunio amserlen. Gofynnodd SP a ellid cwblhau hyn ar gyfer y cyfarfod PCRh nesaf ym mis Ebrill. Dywedodd MF y teimlai ei fod yn afresymol gallu llunio amserlen at y cyfarfod hwnnw. Pwysleisiodd SP yr angen brys i ddatblygu'r ymarfer hwn ac ailbwysleisiodd fod llawer iawn o waith i'w wneud i gwblhau'r ymarfer hwn. Gofynnodd MS p'un a fyddai'r amserlen yn nodi sut y câi unrhyw adolygiad ei gynnal. Dywedodd MF y byddant yn ystyried manylion wrth ystyried y ffordd ymlaen. Gofynnodd PT p'un a allai Caerdydd roi syniad o gynnydd y gwaith. Dywedodd MI fod angen trafod hyn, yn yr un modd ag yn Awdurdod Bro Morgannwg, a chytunwyd ar y ffordd ymlaen ar 5 Mawrth. Dywedodd PT fod gwasanaethau'n cael eu hystyried yn y Fro i weld p'un a ydynt yn strategol berthnasol a ph'un a oedd angen parhaus am wasanaeth penodol. Dywedodd FB nad oedd cyfuno data Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg yn golygu bod angen cyfuno prosesau gweithio. Dywedodd BB (Cadeirydd) fod angen rhoi cynllun amser ar y cyd</p>	

<p>ar waith, a'i wirio.</p> <p>Canlyniadau a Rheoli Perfformiad (gan gynnwys adolygu gwasanaethau). Rhoddodd PT gyflwyniad i'r cyfarfod ar ddata monitro Canlyniadau Cefnogi Pobl ar gyfer y cyfnod Ebrill-Medi 2012 o ran Cyngor Bro Morgannwg.(Cafodd y rhai a oedd yn bresennol gopi o'r data).</p> <p>Rhoddodd MB gyflwyniad i'r cyfarfod ar ddata monitro Canlyniadau Cefnogi Pobl ar gyfer y cyfnod Ebrill-Medi 2012 o ran Cyngor Caerdydd. (Cafodd y rhai a oedd yn bresennol gopi o'r data).</p> <p>Gofynnodd MI sut y byddai'r data canlyniadau yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd SP na fyddai'n cael ei ddefnyddio i ragfeirniadu darparwyr gwasanaeth, ond y bydd yn galluogi Cefnogi Pobl i adolygu a holi cwestiynau penodol yn genedlaethol.</p> <p>C. Beth sy'n cael ei wneud gyda'r wybodaeth a gafwyd hyd yma? Dywedodd SP nad oedd gan Lywodraeth Cymru system ar gyfer data ar hyn o bryd, ond yn y pen draw y bydd yn bwydo i system ac yn rhoi dealltwriaeth i Lywodraeth Cymru o faterion ledled Cymru.</p> <p>Cynigion ar Ail-fodelu Strategol. Dim</p> <p>Comisiynu a Chaffael Ail-dendro Contractau Anableddau Dysgu (Caerdydd) Dim diweddariad ar gael.</p>	
<p>Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth</p> <p>Cadarnhaodd PT ac MB fod holiaduron wedi'u hanfon i'r holl Ddarparwyr Cymorth i alluogi'r ddau ranbarth i gasglu gwybodaeth am y dulliau ymgynghori presennol sydd ar waith. Y dyddiad olaf i'w dychwelyd yw 11 Mawrth 2012. Unwaith y'u dadansoddir bydd y PCRh yn llunio Fframwaith Ymgysylltu Gwasanaethau.</p>	PT/MB
<p>Presenoldeb aelodau Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl mewn PCRh. Cynhaliwyd trafodaeth yn dilyn cyfarfod PCRh ym mis Chwefror a</p>	

phresenoldeb Chris Maggs, Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, yn y cyfarfod hwnnw.

Gofynnodd Jan Williams, Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, i ddod i gyfarfod PCRh ym mis Ebrill.

Dywedodd BB (Cadeirydd) y credai fod presenoldeb Chris Maggs yn ddefnyddiol, a gofynnodd am farn eraill ar hyn.

Dywedodd FB bod angen cynifer o bobl â phosibl i fynychu, gan hefyd ystyried yr angen i sicrhau nad oes gormod yn dod.

Gofynnodd MI beth oedd angen ei wneud i annog eraill i ddod.

Dywedodd MS y byddai'n rhoi syniad gwell o bwy yw pobl a'r hyn y gallant ei gynnig i'r cyfarfod ac y byddai hefyd yn sicrhau cysylltiad uniongyrchol rhwng PCRhau a Bwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl.

Gofynnodd BB (Cadeirydd) a yw'r cyfarfod yn cytuno i adael i Fwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl fynychu'n rheolaidd, a ph'un a ddylid caniatáu i Jan Williams ddod i gyfarfod mis Ebrill yn ôl ei chais.

Porth Sengl Caerdydd.

<p>Rhoddodd MF gyflwyniad i'r cyfarfod ar broject Porth Sengl Caerdydd. (Cafodd pawb a fynychodd gopi o'r cyflwyniad). Mae'r project yn bartneriaeth rhwng Cyngor Caerdydd ac amryw asiantaethau partneriaeth sy'n darparu gwasanaethau digartrefedd yn y ddinas.</p> <p>Mae Porth Caerdydd yn gyfuniad o wasanaeth rheoli digartrefedd rheng flaen a rhaglen ar-lein ddiogel a ddatblygwyd gan Gyngor Caerdydd i reoli pob cam o'r gwaith rheoli ystafelloedd hostel yn yr Awdurdod. Dechreuodd y broses hon ar 3 Rhagfyr 2012.</p> <p>Rheolir y rhaglen Porth gan ddau Swyddog Porth o Fyddin yr Iachawdwriaeth.</p>	
<p>Ymgysylltu â'r Sector Rhent Preifat ar PCRh - Frances Beecher (Cymorth)</p> <p>Ni all FB ar hyn o bryd roi diweddariad gan ei bod yn aros am ffurflen adborth gan Gynrychiolwyr Cymorth.</p> <p>Cytunodd y grŵp i aros am adborth unwaith y bydd ymgynghoriad Darparwyr Caerdydd a'r Fro wedi'i gwblhau. Cytunwyd i'w gynnwys ar agenda cyfarfod mis Ebrill.</p>	FB
<p>Diweddariad gan Lywodraeth Cymru</p> <p>Dywedodd SP y bu cais blaenorol i gael adborth dros e-bost. Dywedodd SP wrth y grŵp y rhoddir adborth llafar ledled Cymru i bob PCRh. Cadarnhaodd BB (Cadeirydd) â'r grŵp y byddai hyn yn parhau.</p> <p>Dywedodd SP fod y fframwaith Monitro ac Adolygu am gael ei gyhoeddi i Awdurdodau Lleol.</p> <p>Daw Cam-drin Domestig (ymgynghoriad papur gwyn) i ben ar 22 Chwefror 2013.</p> <p>Bil Tai Newydd - wrthi'n cael ei ddrafftio.</p>	SP
<p>Eitemau Agenda mis Mawrth</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Papur ar y sector rhent preifat ym Mro Morgannwg a Chaerdydd. ➤ Diwygio Lles 	
<p>Unrhyw Fater Arall Dim</p> <p>Cyfarfod nesaf: Dydd Mercher 3 Ebrill 2013 yn Ystafell F26, Bloc A, Depo'r Alps, Gwenfô.</p> <p>NEWIDIWYD LLEOLIAD OHERWYDD DIFROD STORM I'R</p>	

SWYDDFEYDD DINESIG.

--	--